



Blaenoriaethau Rhaglen Fuddsoddi TraCC yn y Priffyrdd 2012-2017

Rhagfyr 2012

Hyder Consulting (UK) Limited

2212959
Ty HCL
Ffordd Fortran
Parc Busnes Llanelirwg
Llanelirwg
Caerdydd CF3 0EY
Y Deyrnas Unedig
Ffôn: +44 (0)29 2092 6700
Ffacs: +44 (0)29 20
www.hyderconsulting.com



Blaenoriaethau Rhaglen Fuddsoddi TraCC yn y Priffyrdd 2012-2017

Rhagfyr 2012

Awdur	Janice Hughes	
Gwiriwyd gan	Liam Scott	
Cymeradwywyd gan	Janice Hughes	

Rhif yr adroddiad 002-UA003900-UE31-02

Dyddiad Rhagfyr 2012

Paratowyd yr adroddiad hwn i TraCC yn unol â'r telerau a'r amodau penodi o dan Gytundeb Fframwaith Ceredigion dyddiedig Mehefin 2010. Ni all Hyder Consulting (UK) Limited (2212959) ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw drydydd parti sy'n defnyddio cynnwys yr adroddiad hwn neu'n dibynnu arno.

CYNNWYS

1	Cyflwyniad	1
1.1	TraCC	1
1.2	Y Strategaeth Briffyrdd	1
1.3	Blaenoriaethau'r Rhaglen Fuddsoddi	1
2	Prosiectau diweddar a chyfredol	2
2.1	Arian y Grant Trafnidiaeth Rhanbarthol	2
2.2	Ffynonellau ariannol eraill	2
3	Cynlluniau Gwella'r Priffyrdd	4
3.1	Cynlluniau posib	4
3.2	Gwerthuso'r cynlluniau	6
4	Argymhellion	9
4.1	Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu Allan i'r Rhanbarth	9
4.2	Cynlluniau sirol	10

Tablau

Tabl 2.1: Dyranid Cyfalaf Terfynol ar gyfer y Priffyrdd 2011/12

Tabl 2.2: Dyranid Cyfalaf ar gyfer y Priffyrdd 2012/13

Tabl 3.1: Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu Allan i'r Rhanbarth a Werthuswyd

Tabl 3.2: Cynlluniau Priffyrdd o dan Arweiniad Sirol a Werthuswyd

Tabl 3.3: Sgoriau Gwerthuso'r Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu Allan i'r Rhanbarth

Tabl 3.4: Sgoriau Gwerthuso'r Cynlluniau o dan Arweiniad Sirol

Tabl 4.1: Sylwadau ac Argymhellion ynghylch y Cynlluniau Priffyrdd Sirol

Ffigurau

Ffigur 3.1: Cynlluniau Cefnffyrdd a Thu Allan i'r Rhanbarth

Ffigur 3.2: Cynlluniau Sirol

1 Cyflwyniad

1.1 TraCC

1.1.1 Paratowyd Strategaeth Briffyrdd a Rhaglen Fuddsoddi'r Canolbarth gan TraCC gyda chymorth Hyder Consulting. Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yw Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol y Canolbarth, sy'n cwmpasu siroedd Ceredigion, Powys a Gwynedd (hen ranbarth Meirionnydd) ac sy'n cynnwys rhannau o Barciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog. Mae aelodau'r Consortiwm yn ceisio cydweithio â'i gilydd a phartneriaid i gyflwyno gwelliannau i'r system drafndiaeth yn rhanbarth TraCC a'r system drafndiaeth i'r rhanbarth.

1.1.2 Yng ngoleuni blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r pwysau parhaus ar adnoddau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), mae TraCC wedi paratoi strategaeth briffyrdd a rhaglen fuddsoddi wedi'i blaenoriaethu. Bydd y strategaeth a'r rhaglen yn cyflwyno dull cydlynus o fynd i'r afael â phriffyrdd y rhanbarth, ac fe'u defnyddir i:

- Iywio buddsoddiad y CTRh;
- sicrhau bod blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu cynrychioli'n llwyr mewn rhaglenni gwario cenedlaethol;
- cefnogi rhaglenni'r Awdurdodau Lleol i fuddsoddi yn y priffyrdd a'u cynnal a'u cadw.

1.2 Y Strategaeth Briffyrdd

1.2.1 Rydym wedi llunio strategaeth briffyrdd sydd ar gael mewn dogfen ar wahân. Diben y strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer buddsoddi yn y priffyrdd, gan bennu'r cyfeiriad hirdymor. Mae'n gosod y cyd-destun polisi, y cyd-destun priffyrdd, y problemau a'r cyfleodd, ac mae'n pennu amcanion ac elfennau strategol i fodloni'r amcanion. Dyma grynodeb o elfennau'r strategaeth:

- Gwella a rheoli seilwaith rhwydwaith y priffyrdd;
- Hybu diogelwch ar y ffyrdd;
- Lleihau a rheoli symudiadau cerbydau sy'n cludo nwyddau;
- Monitro a gwerthuso.

1.3 Blaenoriaethau'r Rhaglen Fuddsoddi

1.3.1 Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Strategaeth ac mae'n nodi 'Blaenoriaethau Rhaglen Fuddsoddi 2012-2017'. Mae'n rhoi manylion gwariant diweddar a gwariant cyfredol ar y priffyrdd a, thrwy werthuso cynlluniau posib, mae'n rhoi rhaglen bum mlynedd o gynlluniau wedi'u blaenoriaethu gan ddefnyddio fframwaith gwerthuso'r Strategaeth. O rannu'r Strategaeth Briffyrdd yn ddwy ran, bydd yn sicrhau bod modd diweddarau'r rhaglen bum mlynedd yn rheolaidd, gan ddibynnu ar faterion ariannu a chyflenwi.

1.3.2 Mae'r rhaglen yn cynnwys cynlluniau cyfalaf a gynigiwyd gan yr Awdurdodau Lleol. Cafodd y cynlluniau'u gwerthuso a'u blaenoriaethu ar ffurf un rhestr, beth bynnag fydd y ffynonellau ariannu yn y pen draw. Er enghraifft, caiff cynlluniau sy'n mynd i'r afael â materion diogelwch ar y ffyrdd yn bennaf ac a allai fod yn gymwys i gael grant diogelwch ffyrdd eu cynnwys ochr yn ochr â chynlluniau gwella coridorau sy'n mynd i'r afael â nifer o wahanol faterion.

2 Prosiectau diweddar a chyfredol

2.1 Arian y Grant Trafnidiaeth Rhanbarthol

2.1.1 Yn 2011/12, dyrannwyd £2.85m o arian cyfalaf i TraCC. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r gwariant ar brosiectau priffyrdd ganolbwyntio ar gynlluniau gwerth cyfanswm o £1.081m, sef 37.9% o'r arian a ddyrannwyd i'r rhanbarth (gweler **Tabl 2.1**).

Tabl 2.1 Dyranid Cyfalaf Terfynol ar gyfer y Priffyrdd 2011/12

Prosiect	Dyranid Terfynol 2011/12 (£'000oedd)
A486 Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn	536
Pont Newydd Pont Briwet	311
A493 Bompren i Nant y Gwenlli	163
B4520 Signalau traffig newydd Aberhonddu	45
Prosiect Cefnffordd Troeon Dyfi	24
Cyffordd Dyfi	2
CYFANSWM	1,081

2.1.2 Yn ogystal, gwariwyd cyfanswm o £262k ar brosiectau cyfalaf diogelwch ar y ffyrdd a £287k ar brosiectau refeiwr diogelwch ar y ffyrdd.

2.1.3 £2.47m yw gwerth y rhaglen gyfalaf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a gymeradwywyd ganddi ar gyfer 2012/13, ac mae'n cynnwys cyfanswm o £1.18m o arian (48.8%) ar gyfer prosiectau priffyrdd, fel y gwelwch yn **Nhabl 2.2**.

Tabl 2.2 Dyranid Cyfalaf ar gyfer y Priffyrdd 2012/13

Prosiect	Dyranid (£'000oedd)
Pont Newydd Pont Briwet	939
A493 Aberdyfi i Fachynlleth	242
CYFANSWM	1,181

2.1.4 Yn ogystal, dyrannwyd £310k o arian cyfalaf a £193k o arian refeiwr ar gyfer cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd ym mlwyddyn ariannol 2012/13.

2.2 Ffynonellau ariannol eraill

2.2.1 Mae arian arall ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn dod o wahanol ffynonellau gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru (Cefnffyrdd);
- Cyllidebau cyfalaf neu gynnal a chadw'r Awdurdodau Lleol neu fenthycia darbodus;
- Cyfraniadau datblygwyr;
- Cronfeydd Cydgyfeirio'r UE (Ceredigion, Gwynedd);
- Cronfeydd Cystadleurwydd yr UE (Powys);

- Ffynonellau eraill fel Network Rail pan fydd gwaith i wella'r priffyrdd yn cael ei gyflawni ar y cyd â seilwaith y rheilffyrdd.

2.1.5 Mae arian hefyd ar gael i'r Awdurdodau Lleol am dair blynedd o dan y Fenter Benthycu Llywodraeth Leol i gefnogi cynlluniau sy'n lleihau costau cynnal a chadw parhaus. Cymeradwywyd y symiau a ganlyn i bob un o'r awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol:

- Powys - £320,741 refeniw; £4.680m cyfalaf
- Gwynedd - £264,768 refeniw; £4.362m cyfalaf
- Ceredigion - £162,806 refeniw; £3.580m cyfalaf

3 Cynlluniau Gwella'r Priffyrdd

3.1 Cynlluniau posib

3.1.1 Ar ôl ymgynghori â phob un o'r Awdurdodau Lleol, nodwyd rhestr gychwynnol o 32 prosiect posib sy'n gysylltiedig â'r priffyrdd a chyflwynwyd 15 prosiect arall ar ôl trafodaeth bellach. O blith y prosiectau hyn, astudiaethau oedd nifer o'r prosiectau a gynigiwyd gan Gyngor Sir Powys ac ni chawsant eu gwerthuso fel cynlluniau priffyrdd oherwydd eu bod yn cael eu rhoi ar waith drwy ddulliau eraill.

3.1.2 Roedd gwelliannau i gynlluniau'r cefnffyrdd ymhlith 42 cynllun a werthuswyd ar gyfer Rhaglen Briffyrdd TraCC. Mae'r Awdurdodau Lleol yn credu bod y cynlluniau hyn yn bwysig ond ni chawsant eu blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC). Ni chafodd cynlluniau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y CTC (e.e. Ffordd Osgoi'r Drenewydd) eu gwerthuso oherwydd eu bod eisoes wedi'u blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad.

3.1.3 Dangosir y cynlluniau cefnffyrdd a werthuswyd yn **Nhabl 3.1**. Mae'r llythyren yn y cyfeirnod yn cyfeirio at ardal yr Awdurdod Lleol (C=Ceredigion, P=Powys, G=Gwynedd). Mae Cynllun Croesi'r Ddyfi wedi'i leoli ar yr A487 ym Mhowys yn bennaf, ond mae'n ffinio â Gwynedd.

3.1.4 Yn ychwanegol at gynlluniau cefnffyrdd y Canolbarth, cynigiwyd cynlluniau eraill i'w gwerthuso sy'n gorwedd ar ffin rhanbarth TraCC, neu drosti, oherwydd eu bod yn bwysig i ddarparu mynediad i'r Canolbarth. Mae Ffordd Osgoi Llanymynech-Pant ar yr A483 yn gorwedd ar y ffin â Swydd Amwythig a'r Asiantaeth Priffyrdd sy'n arwain y cynllun hwnnw. Mae cynllun yr A485 / B4459 wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin. Mae **Ffigur 3.1** yn dangos lleoliad y Cynlluniau Cefnffyrdd a'r Cynlluniau Tu Allan i'r Rhanbarth.

Tabl 3.1: Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu allan i'r Rhanbarth a Werthuswyd

Cynllun
C2 – A487 Rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth
C3 – A485/B4459 Ffordd Gyswllt Ceredigion yn Sir Gaerfyrddin
G1/P – A487 Croesi'r Ddyfi
G9 – A494 Gwelliannau o'r Bala i Lanuwchllyn
P21 – A483 Ffordd Osgoi Llanymynech-Pant
P22 – A470 Cyffordd Moat Lane i Lantwymyn
P23 – A483 Dyffryn Hafren – y Drenewydd i'r Trallwng
P24 – A489 Moat Lane (Caersws) i'r Drenewydd
P25 – A470 Caersws i Langurig
P26 – A44 Llangurig i Aberystwyth
P27 – A458 Cylchfan Tal-y-bont i Dreberfedd
P28 – A483 Y Drenewydd i Crossgates
P29 – A483 Dolfor i'r Drenewydd
P30 – A483 Crossgates i Landrindod
P31 – A40 Gwelliannau ar-lein yng nghyffordd Scethrog
P32 - A40 Gwelliannau ar-lein yng nghyffordd The Kestrel Inn
P33 - A40 Alinio cyfyngedig yn nhroeon Cellar

3.1.5 Mae cynlluniau ar gael hefyd y gellir disgwyl iddynt ddod yn gefnffyrdd os cânt eu cyflawni, gan gynnwys yr A486 o'r Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn a Ffordd Liniaru Llanbadarn Fawr yn Aberystwyth. Cânt eu cynnwys fel cynlluniau sirol oherwydd eu statws ar hyn o bryd.

3.1.6 Mae **Tabl 3.2** yn rhestru'r 25 prosiect o dan arweiniad sirol a gafodd eu gwerthuso. Mae **Ffigur 3.2** yn dangos lleoliad pob un o'r cynlluniau.

Tabl 3.2: Cynlluniau Priffyrdd o dan Arweiniad Sirol a Werthuswyd

Cynllun
C1 - A486 Ffordd Gyswllt Ceredigion: Gwelliannau o'r Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn
C4 - A44/A4120 Ffordd Liniaru Llanbadarn Fawr
G2 - A493 Aberdyfi i Fachynlleth
G3 - A493 Cynllun Diogelwch Ffordd a Gwella Priffordd Abertafol
G4 - A493 Dolgellau i Dywyn
G5 - A496 Gwelliannau i'r Briffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolgellau
G6 - A4212 Cynllun Diogelwch Ffordd Rhyd-y-fen, Llyn Celyn
G7 - A496 Rhyd-y-sarn, Maentwrog i Danygrisiau
G8 - A496 I'r Gogledd o Abermaw
P1 - C1206 Mannau Pasio Cwm Elan
P2 - B4358 Gwelliant Troedrhiwdalar
P3 - A438 Lower House, Cleiro
P4 - A490 Astudiaeth Llwybr Sgwâr Raven i Groes Pluen
P5 - A481 Llanelwedd i Fforest Inn
P6 - B4568 Ffordd Llanllwchaearn, y Drenewydd
P7 - A488 Pen-y-bont i Drefyclo a'r A4113 Trefyclo i Heartsease – Astudiaeth Llwybr
P8 - B4567 Pont Erwyd
P9 - B4393 Pont Llansanffraid
P10 - A490 Pont Ysgawrhud
P11 - A495 Strategaeth Llwybr Llanfair Caereinion i CB
P13 - A44 Troeon Fforest Clud
P16 - A4081 Astudiaeth Llwybr Llandrindod i'r A470(T)
P17 - A489 Y Drenewydd i'r Ystog
P34 - A44 Greenway Manor Lodge i'r Gorllewin o Crossgates
P35 - A44 I'r Dwyrain o Crossgates

3.1.7 Ar gyfer pob prosiect, cafwyd gwybodaeth safonol drwy ffurflenni a lanwyd gan yr Awdurdodau Lleol, a lle'r oedd modd, defnyddiwyd y wybodaeth isod i'w hategu:

- brasluniau o leoliadau'r cynlluniau;
- astudiaethau dichonoldeb;
- dyluniadau o'r llwybrau;
- costau'r gyllideb;
- cyfyngiadau / materion i'w datrys.

3.2 Gwerthuso'r cynlluniau

3.2.1 Mae Hyder wedi gwerthuso'r cynlluniau gan ddefnyddio dau fframwaith gwerthuso. Mae'r fframwaith cyntaf yn asesu cyfraniad posib y cynllun at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau TraCC ac mae'r ail fframwaith yn asesu'r materion amgylcheddol y mae'n debygol y bydd angen mynd i'r afael â nhw. Mae fframweithiau sgorio'r gwerthusiadau ar gael ar ffurf ffeiliau electronig (**Atodiad A** ac **Atodiad B**) ac mae'r rhain yn cynnwys holl ganlyniadau gwerthusiadau pob un o'r cynlluniau yn **Nhablau 3.1** a **3.2**.

3.2.2 Nodir blaenoriaethau TraCC yn y Strategaeth Briffyrdd, fel y'u rhestrir isod.

Blaenoriaethau TraCC	
Bydd TraCC yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd sy'n:	
▪	lleihau'r pellter a'r amser teithio'n sylweddol o'i gymharu â'r llwybr presennol;
▪	lleihau'r tanwydd a ddefnyddir drwy sicrhau bod cyflymder taith yn fwy cyson;
▪	lleihau effaith traffig ar anheddiad allweddol (fel y'i diffinnir yng Nghynllun Gofodol Cymru);
▪	cael effaith fuddiol neu niwtral ar y tirlun, bioamrywiaeth, adnoddau dŵr a threftadaeth;
▪	cynnwys mesurau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd neu i'w hybu;
▪	anelu at fynd i'r afael â lleoliadau ar y priffyrdd lle ceir cyfraddau uchel o anafiadau a marwolaethau;
▪	gwella hygyrchedd rhan bwysig o'r rhanbarth;
▪	uwchraddio llwybr craidd / llwybr o bwysigrwydd strategol i safon briodol;
▪	lleihau problem gynnal a chadw barhaus neu fynd i'r afael â diffyg sylweddol o ran y seilwaith;
▪	rhan o ddull cydlynus o ymdrin â choridor llwybr;
▪	gwella'r rhwydwaith craidd;
▪	gwella llwybrau cludo nwyddau allweddol.

3.2.3 Mae'r matrices amgylcheddol yn asesu'r effaith debygol ar fioamrywiaeth, y tirlun, adnoddau dŵr a threftadaeth, ynghyd â materion eraill fel ansawdd aer. Mae'r matrices yn nodi lleoliad dynodiadau statudol ac mae'n sgorio'r risgiau amgylcheddol neu'r buddion posib ym mhob categori.

3.2.4 Dangosir sgoriau pob cynllun cefnffordd yn **Nhabl 3.3** a phob cynllun sirol yn **Nhabl 3.4**. Ni ddylid cyfuno sgôr y cyfraniad at yr amcanion a sgôr y matrices amgylcheddol i roi cyfanswm sgôr gan fod eu seiliau'n wahanol. Fodd bynnag, o edrych ar y ddwy sgôr gyda'i gilydd, mae'n rhoi trosolwg ar y graddau y mae cyfle i gyflawni'r amcanion ac ar y risgiau neu'r buddion amgylcheddol.

3.2.5 Sylwch fod y sgoriau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau posib, yn hytrach nag ar lefel debygol y gost neu faterion cyflenwadwyedd. O ran llawer o'r cynigion, mae angen cyflawni ymchwiliadau cychwynnol i bennu a ydynt yn ddichonadwy, ynghyd â'u cost debygol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael am y cynlluniau ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn. Diben y gwerthusiad yw pennu pa

gynlluniau sy'n meddu ar botensial i gyflawni amcanion TraCC orau, a hynny cyn asesu pa rai y byddai modd bwrw ymlaen â nhw mewn rhaglen bum mlynedd.

Tabl 3.3: Sgoriau Gwerthuso Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu Allan i'r Rhanbarth

Cynllun	Cyfraniad at flaenoriaethau TraCC	Sgôr y Matrics Amgylcheddol
C2 – A487 Rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth	25	-10
P27 – A458 Cylchfan Tal-y-bont i Dreberfedd	23	-18
C3 – A485/B4459 Ffordd Gyswllt Ceredigion yn Sir Gaerfyrddin	22	-16
P22 – A470 Cyffordd Moat Lane i Lantwymyn	22	-8
P23 – A483 Dyffryn Hafren – y Drenewydd i'r Trallwng	22	-20
P21 – A483 Ffordd Osgoi Llanymynech-Pant	21	-18
P24 – A489 Moat Lane (Caersws) i'r Drenewydd	21	-14
P26 – A44 Llangurig i Aberystwyth	20	-27
G1/P – A487 Croesi'r Ddyfi	19	-12
P25 – A470 Caersws i Langurig	19	-18
P30 – A483 Crossgates i Landrindod	19	-16
P28 – A483 Y Drenewydd i Crossgates	16	-15
P29 – A483 Dolfor i'r Drenewydd	16	-10
P33 - A40 Alinio cyfyngedig yn nhroeon Cellar	14	-21
P31 – A40 Gwelliannau ar-lein yng nghyffordd Scethrog	12	-16
P32 - A40 Gwelliannau ar-lein yng nghyffordd The Kestrel Inn	12	-12
G9 – A494 Gwelliannau o'r Bala i Lanuwchllyn	12	Amh.

Tabl 3.4: Sgoriau Gwerthuso'r Cynlluniau o dan Arweiniad Sirol

Cynllun	Cyfraniad at flaenoriaethau TraCC	Sgôr y Matrics Amgylcheddol
C4 - A44/A4120 Ffordd Liniaru Llanbadarn Fawr	23	-17
G2 - A493 Aberdyfi i Fachynlleth	19	-16
G5 - A496 – Gwelliannau i'r Briffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolgellau	19	-18
C1 - A486 Ffordd Gyswllt Ceredigion: Gwelliannau o'r Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn	18	-3
G4 - A493 Dolgellau i Dywyn	18	-18
G8 - A496 I'r Gogledd o Abermaw	17	-8
P2 - B4358 Gwelliant Troedrihwdalar	17	-8
P3 - A438 Lower House, Cleiro	17	-7
P13 - A44 Troeon Fforest Clud	17	-6
P17 - A489 Y Drenewydd i'r Ystog	17	-11
G7 - A496 Rhyd-y-sarn, Maentwrog i Danygrisiau	16	-14
P6 - B4568 Ffordd Llanllwchaearn, y Drenewydd	16	-10
G3 - A493 Cynllun Diogelwch Ffordd a Gwella Priffordd Abertafol	15	-14
P34 - A44 Greenway Manor Lodge i'r Gorllewin o Crossgates	15	-17

Cynllun	Cyfraniad at flaenoriaethau TraCC	Sgôr y Matrics Amgylcheddol
P11 - A495 Strategaeth Llwybr Llanfair Caereinion i CB	14	-11
P16 - A4081 Astudiaeth Llwybr Llandrindod i'r A470(T)	14	-12
P35 - A44 I'r Dwyrain o Crossgates	14	-5
P8 - B4567 Pont Erwyd	13	-10
P5 - A481 Llanelwedd i Fforest Inn	12	-11
P7 - A488 Pen-y-bont i Drefyclo a'r A4113 Trefyclo i Heartsease – Astudiaeth Llwybr	12	-17
G6 - A4212 Cynllun Diogelwch Ffordd Rhyd-y-fen, Llyn Celyn	11	-7
P4 - A490 Astudiaeth Llwybr Sgwâr Raven i Groes Pluen	11	-12
P10 - A490 Pont Ysgawrhud	10	-8
P9 - B4393 Pont Llansanffraid	9	-7
P1 - C1206 Mannau Pasio Cwm Elan	8	-12

4 Argymhellion

4.1 Cynlluniau Cefnffyrdd / Tu Allan i'r Rhanbarth

4.1.1 Mae'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn rhwydwaith y cefnffyrdd ac mewn cynlluniau tu allan i'r rhanbarth wedi dod i'r amlwg drwy eu sgorio yn erbyn Blaenoriaethau TraCC (yn unol â'r crynodeb yn **Nhabl 3.3**). Rydym yn argymhell bod y rhestr hon o gynlluniau'n cael ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ynghylch rhaglenni'r dyfodol. Bydd angen trafod cynlluniau eraill gyda'r Partneriaethau Menter Lleol perthnasol a'r Asiantaeth Briffyrdd yn Lloegr.

4.1.2 Rhestrir y cynlluniau yn nhrefn blaenoriaeth ar sail y sgoriau. Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd materion cyflenwadwyedd yn dylanwadu ar y drefn flaenoriaeth (gan gynnwys materion amgylcheddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw). Mae'r cynlluniau wedi cyrraedd gwahanol gamau. Mae rhai o'r cynlluniau'n ddatblygedig ond mae oedi cyn iddynt gael blaenoriaeth i'w hariannu. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu cynlluniau eraill, fel cyflawni astudiaeth WelTag o'r opsiynau posib.

Blaenoriaethau Cynlluniau Cefnffyrdd a Thu Allan i'r Rhanbarth

Mae **blaenoriaethau** TraCC ar gyfer buddsoddi yn rhwydwaith Cefnffyrdd Cymru a Lloegr ac mewn cynlluniau tu allan i'r rhanbarth yn cynnwys y cynlluniau a ganlyn:

- A487 Rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth
- A458 Cylchfan Tal-y-bont i Dreberfedd
- A485/B4459 Ffordd Gyswllt Ceredigion yn Sir Gaerfyrddin
- A470 Cyffordd Moat Lane i Lantwymyn
- A483 Dyffryn Hafren – y Drenewydd i'r Trallwng
- A483 Ffordd Osgoi Llanymynech-Pant
- A489 Moat Lane (Caersws) i'r Drenewydd
- A44 Llangurig i Aberystwyth
- A487 Croesi'r Ddyfi
- A470 Caersws i Langurig
- A483 Crossgates i Landrindod
- A483 Y Drenewydd i Crossgates
- A483 Dolfor i'r Drenewydd
- A40 Gwelliannau yn nhroeon Cellar, cyffordd Scethrog a chyffordd The Kestrel Inn
- A494 Gwelliannau o'r Bala i Lanuwchllyn

Bydd TraCC yn galw am i'r cynlluniau hyn gael eu blaenoriaethu yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ac yn rhaglenni ariannu Lloegr a bydd yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, ynghyd ag awdurdodau'r priffyrdd yn Lloegr, i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn.

4.2 Cynlluniau sirol

- 4.2.1 Dangoswyd sgoriau'r cynlluniau o dan arweiniad sirol eisoes yn **Nhabl 3.4**. Mae **Tabl 4.1** yn rhoi sylwebaeth am bob cynllun, gan gynnwys statws cyfredol y cynllun a'i gost debygol. Mae'r tabl hefyd yn argymhell sut y byddai modd cynnwys pob cynllun yn y rhaglen bum mlynedd.
- 4.2.2 Mae cryn ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch hyd a lled y cyllid a fydd ar gael i roi'r cynlluniau ar waith ac i gwblhau gwaith datblygu dros y blynyddoedd nesaf. Felly, gwneir argymhellion ynghylch blaenoriaethau, ond nid oes modd darparu rhaglen wariant at y dyfodol ar hyn o bryd. Bwriedir i'r argymhellion ddarparu dull y gall TraCC a'r Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio i bennu pa gynlluniau i'w dwyn ymlaen i'w datblygu neu'u gweithredu ar sail y cyllid sydd ar gael.

Blaenoriaethau o ran gweithredu cynlluniau sirol

- 4.2.3 Tybiwn fod chwech o'r cynlluniau o dan arweiniad sirol yn ddatblygedig o safbwynt gwaith dylunio a datblygu ac, yn amodol ar gael cyllid o'r ffynonellau sydd ar gael, mae'n bosib y bydd modd eu rhoi ar waith yn y rhaglen bum mlynedd. Mewn rhai achosion, byddai modd ystyried cael cyllid drwy'r grant diogelwch ffyrdd (fel cynllun yr A4212 yn Rhyd-y-fen).
- 4.2.4 Nodir y blaenoriaethau gweithredu isod. Sylwch y gallai gwaith i ddatblygu cynlluniau eraill beri iddynt gael eu cynnig fel blaenoriaethau i'w rhoi ar waith cyn rhai o'r cynlluniau sy'n is ar y rhestr, a hynny ar sail eu cyfraniad at amcanion TraCC. Felly, dylid adolygu'r blaenoriaethau gweithredu bob blwyddyn.

Blaenoriaethau o ran gweithredu cynlluniau sirol

Caiff y cynlluniau a ganlyn o dan arweiniad sirol eu blaenoriaethu i'w gweithredu:

- A493 Aberdyfi i Fachynlleth (gan gynnwys cynllun G3 A493 Abertafol);
- A486 Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn;
- B4567 Pont Erwyd;
- A4212 Cynllun Diogelwch Ffordd Rhyd-y-fen, Llyn Celyn;
- C1206 Mannau Pasio Cwm Elan.

Bydd TraCC yn cydweithio â'r Awdurdodau Lleol i geisio cael gafael ar gyllid ar gyfer y cynlluniau hyn o'r ffynonellau sydd ar gael er mwyn rhoi'r prosiectau hyn ar waith.

Blaenoriaethau o ran datblygu cynlluniau sirol

- 4.2.5 O ran nifer fawr o'r cynlluniau o dan arweiniad sirol, mae angen cyflawni astudiaethau WelTag / gwaith datblygu er mwyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau. Bydd y cyllid ar gyfer gwaith datblygu'n gyfyngedig a dylid canolbwyntio ar y cynlluniau hynny sy'n debygol o gyfrannu fwyaf at flaenoriaethau TraCC ar gyfer priffyrdd y rhanbarth. Ymhellach, rhaid taro cydbwysedd rhwng nifer y cynlluniau sy'n cael arian datblygu a lefel debygol y cyllid i'w rhoi ar waith. Nodir y blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer astudiaethau WelTag a gwaith datblygu ar ôl paragraff 4.2.7 isod. Gellir ychwanegu astudiaethau eraill at y rhaglen yn ddiweddarach, gan ddibynnu ar y cyllid a fydd ar gael yn gyffredinol.
- 4.2.6 Mae cysylltiadau agos rhwng dau o'r cynlluniau a chynllun arfaethedig Ffordd Osogi'r Drenwydd ar yr A483. Bydd TraCC, law yn llaw â Chyngor Sir Powys, yn galw am i'r materion

sy'n gysylltiedig â'r llwybrau hyn a'r cysylltiadau rhyngddynt a'r A483 gael eu hystyried yn ystod y broses o ddylunio'r Ffordd Osgoi. Dyma'r cynlluniau o dan sylw:

- A489 Y Drenewydd i'r Ystog;
- B4568 Ffodd Llanllwchaearn, y Drenewydd.

4.2.7 Dim ond ar ôl i'r ffordd osgoi agor y bydd modd cyflawni astudiaethau pellach ac asesu'r effaith ar lwybrau eraill.

Blaenoriaethau o ran datblygu cynlluniau sirol

Caiff y cynlluniau a ganlyn o dan arweiniad sirol eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith datblygu cychwynnol neu waith datblygu pellach:

- A44 / A4120 Ffordd Liniaru Llanbadarn Fawr;
- A496 Gwelliannau i'r briffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolgellau (gan gynnwys cynllun G7 Gwelliannau o Faentwrog i Danygrisiau);
- A493 Dolgellau i Dywyn;
- B4358 Gwelliant Troedrhiwdalar;
- A438 Lower House, Cleiro;
- A44 Astudiaeth o'r Coridor (gan gynnwys Troeon Fforest Clud, Greenway Manor Lodge i'r Gorllewin o Crossgates, a'r cynllun i'r Dwyrain o Crossgates).

Tabl 4.1: Sylwadau ac Argymhellion ynghylch Cynlluniau'r Prifffyrdd Sirol

Cynllun	Statws	Cost	Sylwebaeth
C4 - A44/A4120 Ffordd Liniaru Llanbadarn Fawr	Cyflawnwyd gwaith dichonolrwydd a modelu traffig amrywiol. Mae angen dwyn y gwaith blaenorol ynghyd â phenderfynu ar y ffordd fwyaf briodol ymlaen mewn adroddiad WelTag. Gallai cyllid fod ar gael o ffynonellau adfywio/Ewropeaidd.	Gallai gostio'n sylweddol i'w roi ar waith. Tybir y bydd angen £30k i gyflawni astudiaeth WelTag.	Mae'r cynllun hwn yn sgorio'n uchel o ran ei effaith bosib, ond bydd yn gymhleth ac yn gostus dod o hyd i atebion priodol. Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen.
G2 - A493 Aberdyfi i Fachynlleth	Cyflawnwyd gwaith dichonoldeb, gan gynnwys astudiaeth WelTag. Mae'r cynlluniau sy'n flaenoriaeth yn barod i'w rhoi ar waith, yn ddibynnol ar gyllid. Cynigiwyd rhai elfennau o'r gwaith cynnal a chadw ar yr A493 o dan y Fenter Benthycia Llywodraeth Leol.	Aros i gael y costau.	Mae'r cynllun yn flaenoriaeth ac mae'n barod i gael ei roi ar waith, yn amodol ar gyllid. Argymhelliad: Dylid cynnwys y costau gweithredu ym mlynnyddoedd cyntaf y rhaglen.
G5 - A496 – Gwella'r briffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolgellau	Ni wnaed unrhyw waith dichonoldeb hyd yma i nodi gwelliannau diogelwch ffordd a gwelliannau i'r briffordd ar hyd y coridor hwn. Mae angen astudiaeth WelTag. Cynigiwyd rhai elfennau o'r gwaith cynnal a chadw ar yr A496 o dan y Fenter Benthycia Llywodraeth Leol.	Tybir y bydd yn costio £30k i gyflawni astudiaeth WelTag o'r gwelliannau.	Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen.
C1 - A486 Gwelliannau i Ffordd Gyswllt Ceredigion: y Post Bach i'r Post Mawr – Synod Inn	Mae'r gwaith dylunio terfynol wedi'i gwblhau ar y cyfan, y caniatadau yn eu lle a'r tir wedi'i gaffael. Mae cam cyntaf y cynllun yn cael ei ariannu yn 2012/13 o dan y Fenter Benthycia Llywodraeth Leol.	Amcangyfrifir y bydd y cynllun cyfan yn costio £8 miliwn.	Argymhelliad: Cychwynwyd ar y gwaith o gyflawni'r cynllun ac os na fydd arian arall ar gael, dylid rhoi blaenoriaeth i ail gam y cynllun yn y rhaglen.
G4 - A493 Dolgellau i Dywyn	Ni wnaed unrhyw waith dichonoldeb hyd yma i nodi gwelliannau diogelwch ffordd a gwelliannau i'r briffordd ar hyd y coridor	Tybir y bydd yn costio £30k i gyflawni astudiaeth WelTag o'r gwelliannau.	Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen, ar ôl astudiaeth yr A496.

Cynllun	Statws	Cost	Sylwebaeth
	hwn. Mae angen astudiaeth WelTag.		
G8 - A496 I'r Gogledd o Abermaw	Mae angen cyflawni gwaith dichonoldeb ac mae angen astudiaeth WelTag. Mae'n debygol y bydd angen tir.	Disgwylir y bydd yn costio miliynau i'w roi ar waith. Tybir y bydd yn costio £30k i gyflawni astudiaeth WelTag o'r gwelliannau.	Mae'r cynllun hwn yn gysylltiedig â phrosiect yn y rhaglen cerdded a beicio i wella teithio cynaliadwy yn y lleoliad hwn. Argymhelliad: O ystyried y costau uchel sy'n debygol o fod ynghlwm wrth roi'r cynllun hwn ar waith, dylid cyflawni astudiaeth WelTag o'r opsiynau yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P2 - B4358 Gwelliant Troedrhiwdalar	Mae angen astudiaeth WelTag i bennu natur y gwelliannau, ac yna bydd angen dylunio a chaffael tir.	BI 1 - £25k (gwaith cyn dylunio ac arolygon) BI 2 - £35k (dylunio a chaffael tir) BI 3 - £450k (gweithredu)	Mae'r cynllun hwn yn flaenoriaeth allweddol ymhlith cynlluniau coridor Powys, oherwydd ei fod yn cysylltu'r A483 a'r A470 gan osgoi Llanfair-ym-muallt Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen.
P3 - A438 Lower House, Cleiro	Mae angen gwaith dylunio ar gyfer gwelliant ar-lein i gael gwared ar gorneli lle ceir gweleddd gwael.	BI 1 - £20k (gwaith cyn dylunio ac arolygon) BI 2 - £35k (dylunio a chaffael tir) BI 3 - £400k (gweithredu)	Cam olaf gwelliannau i goridor yr A438 yw'r cynllun hwn. Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen.
P13 - A44 Troeon Fforest Clud	Mae angen astudiaeth WelTag, astudiaeth ddichonoldeb / cam cyn dylunio i bennu'r atebion. Byddai modd mynd i'r afael â hyn fel rhan o astudiaeth o goridor yr A44.	Amcangyfrifir y bydd y gwaith dylunio'n costio £25k. Costau gweithredu i'w pennu.	Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael ag aliniad arbennig o anodd a materion diogelwch ffordd. Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen, fel rhan o astudiaeth goridor.
P17 - A489 Y Drenewydd	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr /	£20k ar gyfer yr astudiaeth	Mae'r cynllun yn cysylltu â Ffordd Osgoi

Cynllun	Statws	Cost	Sylwebaeth
i'r Ystog	astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	dichonoldeb. Costau gweithredu i'w pennu.	arfaethedig y Drenewydd. Dylid cyflawni'r astudiaeth ar ôl rhoi cynllun y Ffordd Osgoi ar waith. Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon ar ôl cwblhau Ffordd Osgoi'r Drenewydd.
G7 - A496 Rhyd-y-sarn, Maentwrog i Danygrisiau	Is-brosiect a allai ddod i'r amlwg yn sgil astudiaeth WelTag o'r coridor yw'r cynllun hwn.	I'w phennu drwy astudiaeth WelTag.	Argymhelliad: Dylid comisiynu Astudiaeth WelTag yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen.
P6 - B4568 Ffordd Llanllwchaearn, y Drenewydd	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Tybir y bydd yr astudiaeth WelTag yn costio £20k. Costau gweithredu i'w pennu.	Mae'r cynllun yn cysylltu â Ffordd Osgoi arfaethedig y Drenewydd. Dylid cyflawni'r astudiaeth ar ôl rhoi cynllun y Ffordd Osgoi ar waith. Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon ar ôl cwblhau Ffordd Osgoi'r Drenewydd.
G3 - A493 Cynllun Diogelwch Ffordd a Gwella Priffordd Abertafol	Gwnaed astudiaeth WelTag o'r coridor a dyluniad amlinellol. Gall fod angen tir ar gyfer y prosiect. Cynigiwyd rhai elfennau o'r gwaith cynnal a chadw ar yr A493 o dan y Fenter Bentyca Llywodraeth Leol.	Aros i gael y costau.	Argymhelliad: Dylid cynnwys y costau gweithredu ym mlynnyddoedd cyntaf y rhaglen.
P34 – A44 Greenway Manor Lodge i'r Gorllewin o Crossgates	Cynllun gwella byr all-lein i gael gwared ar droeon a phont gul i fynd i'r afael â damweiniau yw'r cynllun hwn. Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Tybir y bydd yn costio £30k i gyflawni astudiaeth WelTag o'r gwelliannau.	Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag/ gwaith cyn dylunio ac arolygon yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen, fel rhan o astudiaeth goridor.

Cynllun	Statws	Cost	Sylwebaeth
	Byddai modd mynd i'r afael â hyn fel rhan o astudiaeth o goridor yr A44.		
P11 – Strategaeth Llwybr yr A495 Llanfair Caereinion i CB	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Bl 1 - £20k ar gyfer yr astudiaeth Bl 2 - £25k ar gyfer gwaith cyn dylunio Costau gweithredu i'w pennu	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P16 – Astudiaeth Llwybr yr A4081 Llandrindod i'r A470(T)	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Bl 1 - £10k ar gyfer yr astudiaeth Bl 2 - £100k ar gyfer y dyluniad a'r gwaith ar y rhan i'r gorllewin o Bont leithon.	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P35 – A44 I'r Dwyrain o Crossgates	Fel rhan o'r cynllun, rhaid cael gwared ar bont reilffordd isel. Mae angen gwaith dichonoldeb i ymchwilio i'r opsiynau a'u costio. Byddai modd mynd i'r afael â hyn fel rhan o astudiaeth coridor yr A44.	Tybir y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn costio £20k.	Argymhelliad: Dylid comisiynu astudiaeth WelTag / gwaith cyn dylunio ac arolygon yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen, fel rhan o astudiaeth goridor.
P8 - B4567 Pont Erwyd	Gwnaed gwaith dylunio. Cynigiwyd y cynllun o dan y Fenter Benthycu Llywodraeth Leol.	Amcangyfrifir mai £1.496m fydd y gost i'w roi ar waith.	Argymhelliad: Ar y cyfan, mae'r cynllun yn barod i'w roi ar waith ac, os oes arian ar gael, dylid rhoi blaenoriaeth iddo yn y rhaglen.
P5 - A481 Llanelwedd i Fforest Inn	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Bl 1 - £15k ar gyfer yr astudiaeth Bl 2 - £75k ar gyfer y dyluniad a'r gwaith (i'w gadarnhau)	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P7 – Astudiaeth o Lwybr yr A488 Pen-y-bont i Drefyclo a'r A4113 Trefyclo i Heartsease	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	Bl 1 - £10k ar gyfer yr astudiaeth Bl 2 - £130k (rhwystrau diogelwch i gerbydau ar Ffordd Llwydlo a gwaith cyn dylunio ar y llwybr).	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.

Cynllun	Statws	Cost	Sylwebaeth
		BI 3 - £35k ar gyfer y dyluniad BI 4 - £40k i gaffael tir BI 5 - £400k i'w weithredu	
G6 - Cynllun Diogelwch Ffordd yr A4212 Rhyd y Fen, Llyn Celyn	Mae angen gwaith dylunio ond nid astudiaeth ddichonoldeb. Efallai y caiff ei ariannu drwy'r Fenter Benthycia Llywodraeth Leol.	Cost i'w chadarnhau, ond amcangyfrifir y bydd yn costio £100k.	Argymhelliad: Byddai modd rhoi'r cynllun ar waith fel rhan o'r rhaglen, pe bai arian ar gael. Byddai modd ei ystyried fel prosiect cyfalaf diogelwch ffyrdd.
P4 – Astudiaeth Llwybr yr A490 Sgwâr Raven i Groes Pluen	Mae angen astudiaeth o goridor y llwybr / astudiaeth WelTag i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	BI 1 - £20k ar gyfer yr astudiaeth BI 2 - £25k gwaith cyn dylunio BI 3 - £35k caffael tir a gwaith dylunio BI 4 - £150k gwaith	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P10 - A490 Pont Ysgawrhud	Cynllun ar wahân sy'n rhan o goridor y llwybr (cynllun P4) y mae angen astudiaeth WelTag ar ei gyfer i bwysu a mesur yr opsiynau ac i bennu costau'r atebion.	I'w phennu	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P9 - B4393 Pont Llansanffraid	Mae angen astudiaeth i bwysu a mesur yr opsiynau. Mae statws rhestredig y strwythur yn cyfyngu ar yr opsiynau a gallai beri i'r costau ymyrryd fod yn uchel.	£20k ar gyfer gwaith cyn dylunio ac arolygon	Argymhelliad: Dylid cyflawni astudiaeth WelTag os oes arian ar gael yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen.
P1 - C1206 Mannau Pasio Cwm Elan	Mae angen cyflawni gwaith dichonoldeb. Byddai modd gwneud hyn fel rhan o'r gwaith gyda'r Fforwm Trafnidiaeth Coed. Gall fod arian ar gael drwy'r Fenter Benthycia Llywodraeth Leol.	BI 1 - £5k ar gyfer arolygon a dylunio BI 2 - £75k i'w weithredu	Er bod y cynllun hwn wedi sgorio'n isel yn gyffredinol, byddai iddo fuddion penodol o ran trafndiaeth coed / twristiaeth. Argymhellion: Byddai modd rhoi'r cynllun ar waith fel rhan o'r rhaglen, pe bai arian ar gael.

